

# Birchill Access Consultancy

Rwyf wedi cael profiad diweddar o brosesu ceisiadau am Leiniau Pentrefi dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006, ac yn arbennig delio ag achos llwyddiannus ym mhentref Talybont, Aberystwyth. Roedd hyn yn golygu prosesu'r cais fel a ganlyn:-

- Dilyn y broses a osodwyd dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006 a deall y gyfraith achosion ar leiniau pentrefi
- Ymgynghori â phob ochr, a chynnal ymgynghoriad statudol, gan gasglu'r ymatebion a threfnu i osod hysbysiadau cyfreithiol swyddogol ar y safle
- Gwneud ymchwil rhagarweiniol ar hanes y safle ac archwilio cofnodion y cyngor ar gyfer y safle
- Drafftio adroddiad y cyngor ar yr achos a chynorthwyo'r bargyfreithiwr a benodwyd gyda gwybodaeth am yr achos
- Gweithredu fel cynrychiolydd allweddol y cyngor yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus a gynhaliwyd dros ddeuddydd
- O ganlyniad llwyddwyd i gofrestru Llain Bentref newydd, gan drefnu bod hysbysiadau'n cadarnhau hynny'n cael eu gosod ar y safle/yn y wasg a bod y gofrestr gyfreithiol yn cael ei diweddarau.